Brig y Goeden

# Y Datgelwr Celwyddau


SUSAN GATES



# Y Datgelwr Celwyddau

SUSAN GATES

Lluniau gan Ivan Bates




DRAKE

# Pennod 1



Un bai mawr sydd ar Annest, fy ffrind gorau i. Mae hi'n dweud llawer o gelwyddau. Ac mae hyn yn hollol hurt - oherwydd mae pawb yn gwybod yn iawn nad ydyn nhw'n wir.

Er enghraifft, meddai hi ddoe, “Mae Mam wedi prynu treinyrs newydd imi. Wyddost ti,  rhai drud iawn, fel y rhai sydd gen ti.

“Ond fflachiadau porffor sydd ar ochr fy rhai i, nid pinc.”




Felly meddwn i, "Ble mae'r esgidiau newydd yma felly? Pam nad wyt ti'n eu gwisgo nhw i ddod i'r ysgol?"

Rydw i'n gwisgo fy nhreinyrs drud newydd drwy'r adeg.




Meddai Annest, "Dydw i ddim yn mynd i'w gwisgo nhw i ddod i'r ysgol. Cân nhw eu difetha. Rydw i'n eu cadw nhw fel esgidiau gorau."



Wrth gwrs, gwyddwn yn iawn nad oedd ganddi hi esgidiau newydd. Yn union fel nad oes ganddi ei set deledu ei hun yn ei hystafell ...



... na'i chyfrifiadur ei hun na dim o'r pethau eraill fydd hi'n brolio yn eu cylch.



Gwn i'n iawn. Rydw i wedi bod yn ei thŷ hi. Dim ond un set deledu sydd ganddyn nhw a does ganddyn nhw ddim cyfrifiadur o gwbl. Felly, pam mae hi'n trafferthu i ddweud celwydd?

Pan gefais i fy fideo fy hun ar gyfer fy llofft, wyddoch chi beth wnaeth Annest?



Rydach chi'n iawn! Rhyw ddeuddydd yn ddiweddarach daeth ataf i a dweud, "Mae gen i fideo yn fy llofft hefyd!"

Meddyliais, “Y tro yma rydw i’n mynd i roi taw arni am byth!” Mae’n gas gen i bobl yn brolio. Dwi’n siwr eich bod chi’n deall. Felly, meddwn i, fel fflach. “Awn ni i weld ffilm arni hi felly! Awn ni i wylio’r ffilm Disney newydd eto.”

Mae gen i lwythi o fideos fy hun. Pryd bynnag fydda i eisiau un, mae fy mam yn ei brynu imi. Dylech chi eu gweld nhw! Mae gen i lond silffoedd ar silffoedd ohonyn nhw.



Daeth golwg ddryslyd dros wyneb Annest. Meddai hi, "Fedrwn ni ddim gwylio fideo heddiw."



"O! Pam felly?" gofynnais yn fy llais mwyaf coeglyd.

"Wel," atebodd Annest, "mae fy mheiriant fideo'n cael ei drwsio."

"Roeddwn i'n meddwl dy fod ti newydd ddweud ei fod o'n newydd!"

"Wel ie, ond collais sudd oren drosto a daeth mwg allan ac roedd yn rhaid iddo fynd 'nôl i'r siop!"

# Pennod 2



Felly dyna sut un ydi fy ffrind Annest. Hi ydi fy ffrind gorau i. Ond rydw i wedi hen laru ar yr holl gelwyddau yna. Dydyn nhw ddim hyd yn oed yn rhai da. Maen nhw'n druenus. Er enghraifft, mae fy mam i'n prynu llawer o ddillad newydd imi, beth bynnag rydw i eisio. A bydda i'n eu gwisgo nhw i'r ysgol i'w dangos i bawb.

Bob tro byddaf i'n cael dillad newydd bydd Annest yn dweud rhywbeth tebyg i, "Prynodd Mam drowsus du sidan hyfryd imi ddoe. Yn union fel y rheina sydd gen ti."



Felly pam nad ydi hi'n eu gwisgo nhw i ddod i'r ysgol? Pam fydd hi bob amser yn dod mewn hen bethau blêr ar ôl ei chwaer fawr? Pam fydd hi'n dweud, "Dwi'n cadw fy nhrowsus newydd yn rhai gorau. Dwi ddim eisio eu difetha"?



Dyfalwch. Rydych chi'n iawn! Oherwydd nad oes ganddi hi drowsus newydd, dyna pam. Does ganddi hi ddim o'r pethau newydd mae hi'n dweud eu bod ganddi.

Gellwch ddychmygu fel mae celwyddau Annest yn mynd o dan fy nghroen i. Wel, betia i y byddech chithau'r un fath.



Felly, cefais i'r syniad gwych yma. Penderfynais ddysgu gwers i Annest. Er ei lles hi'i hun. Mae hi'n gwneud iddi'i hun edrych mor hurt wrth ddweud yr holl gelwyddau yna, a phawb yn gwybod drwy'r adeg nad ydyn nhw'n wir.


Rydw i wedi dyfeisio datgelwr celwyddau.

Do wir! Dydi o ddim yn ddatgelwr celwyddau go iawn, wrth gwrs, ond rydw i'n mynd i ddweud wrth Annest ei fod o.





Gwnes i o â'r pecyn electronig gefais ar fy mhen-blwydd. Roedd yn hawdd i'w wneud. Ac mae'n edrych yn wych. Dylech chi ei weld o.

Mae ganddo fwlb golau bychan coch a bwlb golau bychan gwyrdd ar ddarn o bren.




Dilynais y cyfarwyddiadau a chysylltais nhw â batri fflachlamp. Yna gosodais ddau swits bychan cudd oddi tano er mwyn imi gael troi'r goleuadau ymlaen heb i neb weld.




Mae'r  golau coch ar gyfer y gwir.

Mae'r golau gwyrdd ar gyfer celwyddau. Mae fy Nain yn dweud, "Medra i ddweud pan wyt ti'n dweud celwydd, am fod dy lygaid di'n troi'n wyrdd." Dyna beth hurt i'w ddweud gan mai  gwyrdd ydi fy llygaid i beth bynnag!

# Pennod 3



Neithiwr arbrofais gyda fy nyfais.

Arbrofais ar fy mrawd. Gweithiodd yn ardderchog. Es i'w lofft â'r datgelwr celwyddau yn fy mhoced a dweud, "Rŵan, dywed y gwir wrthyf i, gymeraist ti'r pensiliau lliw o'm llofft i?"

Wrth gwrs, gwyddwn yn iawn ei fod o wedi gwneud oherwydd roeddwn i newydd  weld eu blaenau nhw yn y golwg o dan ei obennydd.

“Naddo siŵr iawn. Pam rwyt ti’n rhoi’r bai arna i?” meddai fy mrawd, yn edrych yn ddiniwed.

Cipiais fy natgelwr celwyddau o’m poced a phwyso’r golau gwyrdd yn slei.




“Be ydi hwnna?” gofynnodd fy mrawd.

“Datgelwr celwyddau,” meddwn i mewn llais chwyrn. “Os wyt ti’n dweud celwydd, mae golau gwyrdd yn fflachio. Os wyt ti’n dweud y gwir, y golau coch sy’n dod ymlaen.”

“Paid â mwydro!” meddai. Ond edrychai’n boenus braidd.

“Iawn. Profa i o iti,” meddwn i. “Gafodd dy dei ysgol newydd di *wir* ei thorri yn ei hanner ar ddamwain?”



“Wrth gwrs!” meddai fy mrawd. “Digwyddodd yn union fel y dywedais wrth Mam. Cafodd ei chau mewn drws.”

Ond fe wyddwn i'n iawn nad oedd hi ddim, oherwydd roeddwn i wedi ei weld yn ei thorri yn ei hanner efo siswrn. Felly pwysais y botwm gwyrdd.

"Mae'r datgelwr celwyddau yn iawn bob amser," meddwn i mewn llais iasol. "Mae'n gallu darllen dy feddwl di."




"Nid fi wnaeth. Nid fi oedd ar fai," meddai fy mrawd.

Gwasgais y golau gwyrdd drachefn.

"Dywed y gwir!"

"Iawn," meddai fy mrawd. "Torrais i fy nhei. Roedd hi'n rhy hir. Roedd yn mynd i lawr at fy mhengliniau."

Yn slei, gwasgais y golau coch.

"Wyt ti'n gweld?" meddwn i. "Mae'r datgelwr celwyddau yn gwybod os wyt ti'n dweud y gwir. Gymeraist ti'r pensiliau yna?"


"Naddo, wnes i ddim, wir!"

Fflachiodd y golau gwyrdd.




"Iawn, rydw i'n cyfaddef!" meddai fy mrawd. Ac estynnodd y pensiliau.

Yna  meddai, "Rho'r datgelwr celwyddau yna i mi!" Estynnodd ei law allan. "Rydw i eisio gofyn tipyn o gwestiynau i *ti* rŵan. Dwi eisio gweld wyt *ti* yn dweud y gwir!"



"Na," meddwn i'n gyflym gan guddio'r datgelwr celwyddau y tu cefn imi. "Chei di ddim. Rhag iti ei dorri. Ond cei di ofyn cwestiynau i mi os wyt ti eisio. A bydd y datgelwr celwyddau yn dangos os ydw i'n dweud y gwir ai peidio."

“Ti fwytaodd yr iogwrt siocled olaf?” gofynnodd fy mrawd. “Yr un roeddwn i’n ei gadw i mi fy hun?”

“Naddo, wnes i ddim!” atebais yn flin.



“Betia i iti wneud!” meddai fy mrawd. “Beth mae’r datgelwr celwyddau yn ei ddweud?”

Daliais y datgelwr celwyddau allan. A wyddoch chi beth? Rydych chi’n iawn. Fflachiodd y botwm coch.

“Wyt ti’n gweld?” meddwn i. “Dyna brofi ’mod i’n dweud y gwir.”

Edrychai fy mrawd yn ddryslyd. "Roeddwn i'n siŵr mai ti fwytaodd o!"

"Wel, wnes i ddim! Felly paid â rhoi'r bai arna i."

"Ble gest ti'r datgelwr celwyddau yna?" gofynnodd fy mrawd.

"A ha," meddwn i gan dapio fy mys ar ochr fy nhrwyn. "Cyfrinach ydi hi."




"Mae'n gas gen i o," meddai. "Mae'n gyrru iasau i lawr fy nghefn i ... hen beth annifyr fel yna yn medru darllen meddwl rhywun."

# Pennod 4



Dydi fy natgelwr celwyddau ddim yn hen beth annifyr. Mae'n ddyfais ardderchog!

Roedd fy mrawd yn credu ei fod yn un go iawn ac mae o'n eithaf peniog. Felly betia i y medra i berswadio Annest i gredu ynddo hefyd.

Beth bynnag, mae yn fy mhoced i'r munud yma. Rydw i'n aros i Annest ddod i'r buarth chwarae ac rydw i'n mynd i'w ddefnyddio arni hi.

Tra ydw i'n aros am Annest, rydw i'n chwarae gêm fach efo'r datgelwr celwyddau. Rwy'n dweud wrtho, "Iawn, ddatgelwr celwyddau, ar fy ngwir wnes i ddim cymryd yr iogwrt siocled olaf yna. Cris-croes, tân poeth. Rydw i'n dweud y gwir, yn tydw?"




Petai'n ddatgelwr celwyddau go iawn dylai'r gwyrdd fflachio. Oherwydd fe fwyteais i'r iogwrt siocled olaf. Wel, wyddwn i ddim fod fy mrawd ei eisiau, na wyddwn?

Ond dim ond datgelwr celwyddau ffug ydi o. A *fi* sy'n pwyso'r botymau. Felly rhaid iddo wneud beth rydw i'n ei ddweud.




Rwy'n pwyso'r botwm coch. Fflach, fflach, fflach.



"Ha ha!" rwy'n chwerthin yn braf. "Roeddwn i'n dweud y gwir. Mae'r datgelwr celwyddau yn dweud hynny!"

Dyma Annest yn dod. Rwy'n cuddio'r datgelwr celwyddau.



Gwn ei bod hi'n mynd i ddechrau palu celwyddau yn syth oherwydd cefais bâr newydd o esgidiau rholio ddeuddydd yn ôl. Fedrwn i mo'u gwisgo nhw yn yr ysgol ond dois â nhw i'w dangos i bawb. Gwyn ac arian efo careiau arian ydyn nhw. Roedd pawb yn dweud eu bod nhw eisiau pâr yn union yr un fath.

Beth ddwedais i?

Mae Annest yn chwifio arna i a'r peth cyntaf un a ddywed hi yw, "Mae gen i bâr o esgidiau rholio yn union fel dy rai di. Heblaw fod gan fy rhai i gareiau aur."



Amser y datgelwr celwyddau! Rwy'n ei gipio allan o boced fy nghôt. "Dwed hynna eto, Annest."

# Pennod 5



Mae golwg ddryslyd ar Annest. “Beth ydi hwnna?” meddai hi.

“Datgelwr celwyddau ydi o.” Dyma fi’n dweud wrthi am y golau coch am y gwir a’r golau gwyrdd am gelwyddau. Erbyn hyn mae criw yn casglu o’n cwmpas.

“Ble cest ti o?” mae Annest eisiau gwybod.

"Dim ots o ble ces i o. Dywed hynna eto am yr esgidiau rholio a dangosa i iti sut mae'n gweithio."



Mae golwg bryderus ar Annest. Ond mae'n dweud yn araf, "Mae gen i bâr o esgidiau rholio fel dy rai di. Heblaw fod gan fy rhai i gareiau aur."

Yn slei bach, rydw i'n pwyso'r golau gwyrdd.

“Dyna ti. Fel y dywedais i. Mae’r golau gwyrdd yn fflachio. Mae hynny’n dangos fod Annest yn dweud celwydd!” meddwn i wrth y criw o’n cwmpas.

“Dydw i ddim. Dydw i ddim yn dweud celwydd,” meddai Annest.



“Iawn felly. Beth am gwestiwn arall. Oes gen ti dy set deledu dy hun yn d’ystafell fel rwyt ti’n dweud?”

“Oes,” meddai Annest. Ond mae’n ei ddweud mewn llais bychan, distaw.

Rydw i'n gwneud i'r golau gwyrdd fflachio a diffodd. "Dwyt ti ddim haws â dweud celwydd," meddwn i. "Mae'r datgelwr celwyddau'n gallu darllen dy feddwl."

Gwnaf i'r golau gwyrdd fflachio eto.

"Nac oes," meddai Annest. "Does gen i ddim set deledu yn fy llofft."

"A ha! Y gwir o'r diwedd," meddwn i a phwyso'r botwm coch.



Dyfais ardderchog ydi'r datgelwr celwyddau yma! Fedr neb ddweud nad ydi o'n un iawn!

Ond beth ydi hwnna, yn disgleirio yn llygaid Annest? Deigryn ydi o?



Choelia i byth. Pam mae hi'n crio? Cael gêm fach ydw i. Dwi ond yn dysgu gwers fach iddi, i wneud iddi stopio dweud celwyddau.

Yna, meddai Annest cyn imi hyd yn oed ofyn iddi, "A does gen i ddim fideo chwaith, na throwsus newydd na dim o'r pethau sydd gen ti. Dwi'n gwybod na ddylwn i fod wedi dweud eu bod nhw gen i. Ond doedd gen i ddim help."



Roeddwn i'n meddwl y byddai'r criw o'n cwmpas yn curo dwylo ac yn dweud, "Mae'r datgelwr celwyddau yna'n wych! Ble cawn ni un?"



Ond dydyn nhw ddim. Maen nhw i gyd wedi mynd yn ddistaw. Beth sy'n bod arnyn nhw?

Mae Annest yn sychu'i llygaid â llawes ei chôt.

# Pennod 6



Yn sydyn rydw i'n teimlo'n ofnadwy. Mae pawb yn rhythu arna i fel petawn i wedi gwneud rhywbeth o'i le ac mae Annest yn methu peidio â chrio. Doeddwn i ddim yn bwriadu iddi grio fel yna. Dim ond gêm oedd hi.

"Gwranda," rwy'n dweud wrth Annest. "Nid arna i roedd y bai. Nid fi ddwedodd dy fod ti'n dweud celwyddau. Y datgelwr celwyddau oedd yn dweud!"



Mae'r golau gwyrdd ar y datgelwr celwyddau yn dechrau fflachio.

Pam mae o'n gwneud hynna? Dydw i ddim yn gwasgu'r botwm. Nac ydw, wir. Mae'n llachar iawn. Mae'n goleuo wynebau pawb ohonon ni. Dydi batri bach tila fflachlamp ddim yn goleuo fel yna!

Rydw i'n trio gwasgu'r golau coch. Ond dydi o'n gwneud dim gwahaniaeth!

Sôn am hen iasau annifyr. Dydw i ddim yn hoffi beth sy'n digwydd. Rwy'n dweud wrth Annest, "Gwranda, rydan ni'n dwy yn ffrindiau gorau o hyd, on'd ydan?"

"Ydan," meddai Annest.

Ond fel mae hi'n ei ddweud, mae'r golau gwyrdd yn fflachio yn fwy llachar fyth.



A dyna Annest yn ochneidio wrth wylio'r golau gwyrdd. "Mae'r datgelwr celwyddau yn gwybod fy mod i'n dweud celwydd. Y gwir ydi nad ydw i ddim o d'eisiau di fel ffrind gorau eto. Hen ffrind gorau cas wyt ti!"



Choelia i byth!

"Nac ydw!" rwy'n gweiddi. "Dydw i ddim yn ffrind cas!" Mae'r golau gwyrdd yn fflachio ac yn fflachio. Rydw i'n gwasgu'r botymau cudd. Ond fedra i mo'i stopio.

“Wyt ti’n gweld?” meddai Annest. “Mae’r datgelwr celwyddau yn gwybod y gwir.”




Yna, meddai rhywun o’r criw, “Rwyt ti’n pigo ar Annest drwy’r adeg. Rwyt ti’n gwneud iddi deimlo’n annifyr am nad oes ganddi hi ddillad newydd a phethau.”

“Ac rwyt ti’n brolio drwy’r adeg am yr holl bethau sydd gen ti,” medd rhywun arall.

"Nac ydw, dydw i ddim!" rwy'n gweiddi. Beth sy'n digwydd? Mae popeth yn mynd o chwith. Mae'r datgelwr celwyddau i fod i wneud beth rydw i'n ei ddweud. Mae o i fod i ddysgu gwers i Annest! Rydw i'n rhoi cynnig ar y botwm coch eto ond wnaiff o ddim gweithio ac mae'r datgelwr celwyddau yn ein dallu â'i fflachiadau gwyrdd llachar.



# Pennod 7



"Rydw i'n difaru imi wneud y datgelwr celwyddau!" rwy'n dweud  wrth bawb. "Mae'n wir ddrwg gen i!"

Mae rhywbeth gwyrthiol yn digwydd. Mae'r golau gwyrdd yn diffodd. Mae'r golau coch yn fflachio.

"Mae'n wir ddrwg gen i, Annest," rwy'n dweud.

Mae'r golau coch yn fflachio'n danbaid.

“Felly gawn ni fod yn ffrindiau o hyd? Wna i ddim dweud dim byd cas am dy ddillad di. Wna i ddim brolio ynghylch fy holl bethau newydd. Gwna i ’ngorau glas i beidio. Wir yrr.”



Am eiliad rwy’n wirioneddol bryderus y bydd y golau gwyrdd yn fflachio eto. Ond dydi o ddim. Mae’r golau coch yn aros ymlaen.

“Yli, mae hi’n dweud y gwir, Annest,” meddai rhywun. “Mae’r datgelwr celwyddau yn dweud. Mae hi’n ei feddwl o.”

“Os gweli di’n dda, Annest,” rwy’n dweud.



Mae Annest yn meddwl am y peth. Mae yna saib hir. Yna mae hi'n dweud, "Iawn. Cawn ni fod yn ffrindiau gorau o hyd."



Ac rydw i'n falch ofnadwy. Oherwydd dydi'r datgelwr celwyddau ddim yn troi'n wyrdd y tro hwn. Mae'r golau coch llachar yn disgleirio ac yn disgleirio.

Rydw i wedi penderfynu lluchio'r datgelwr celwyddau. Roedd Dad yn dweud mai gwifren rydd  wnaeth i'r goleuadau fflachio a diffodd ar eu pennau eu hunain. Mae o'n dweud y gallwn i ei drwsio'n hawdd.

Ond dydw i ddim mor sicr. Mae'n llawer rhy beryglus i'w gael o gwmpas y lle. Oni bai eich bod *chi* eisio fo, wrth gwrs? Cewch chi o. Dim ond ichi beidio â gweld bai arna i os bydd o'n dechrau dweud y gwir!



# *Am yr awdur*



Arferai fy mam ddweud, "Susan, mae'n hawdd dweud pan wyt ti'n dweud celwydd am fod dy lygaid di'n troi'n wyrdd!"

Erbyn hyn rwyf yn byw yn Sir Durham gyda thri o 'mhlant fy hun. Ac weithiau, pan fyddan nhw i gyd yn rhoi'r bai ar y naill a'r llall, byddwn i wrth fy modd petai gen i ffordd hawdd o ddweud pwy sy'n dweud celwydd a phwy sydd ddim. Meddai fy mab, "Rydach chi angen datgelwr celwyddau, Mam. Byddai hynny yn datrys eich problemau chi." "Dyna syniad da," atebais. Ond dechreuais feddwl am y peth. A phenderfynais y gallai datgelwr celwyddau greu mwy o broblemau nag roedd o'n eu datrys!

**Llyfrau Brig y Goeden yng Ngham 12:**

**Pecyn A**
*Sami Sgrap* gan Carolyn Bear
*Robin Woods a'i Ddynion Llon* gan Michaela Morgan
*Boris y Bochdew* gan Pippa Goodhart
*Esgidiau Glas* gan Angela Bull
*Y Datgelwr Celwyddau* gan Susan Gates
*Trip Traed Moch* gan Michaela Morgan

**Pecyn B**
*Yr Anrheg Ben-blwydd Ofnadwy* gan Angela Bull
*Cranwen Grachaidd* gan Pippa Goodhart
*Pasia'r Bêl, Tad-cu* gan Debbie White
*Tipyn o Boendod* gan Michaela Morgan
*Shelley Holmes Ditectif Di-ail* gan Michaela Morgan
*Dyma Drwbwl* gan Tessa Krailing

**Pecyn C**
*Ffasiwn Steil!* gan Michaela Morgan
*Lwc Luc* gan Paul Shipton
*Ffoniwch 999!* gan Sylvia Moody

# Y Datgelwr Celwyddau

Mae ffrind Annest yn dweud fod Annest yn dweud celwyddau. Mae ffrind Annest eisiau dysgu gwers iddi. Ond pwy sydd fwyaf angen y wers?



Brig y Goed

Coeden Ddarllen Rhydyche

Cam 12

ISBN 0-86174-483-7

DRAKE

ISBN 0-86174-483-7

9 780861 744831